Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

## The Laser Company, Tredegar

Dyddiad yr arolygiad: 14 Medi 2023

Dyddiad cyhoeddi: 15 Rhagfyr 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


Rheolwr Cyfathrebu

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru

Parc Busnes Rhyd-y-car

Merthyr Tudful

CF48 1UZ


Neu


Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk


ISBN Digidol 978-1-83577-231-7

© Hawlfraint y Goron 2023

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom ....................5

2. Crynodeb o'r arolygiad ....................6

3. Yr hyn a nodwyd gennym ....................8

   - Ansawdd Profiad y Claf ....................8
   - Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol .................... 11
   - Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .................... 13

4. Y camau nesaf .................... 14

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad .................... 15

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith .................... 16

Atodiad C – Cynllun gwella .................... 18

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o The Laser Company ar 14 Medi 2023.

Cynhaliwyd yr arolygiad gan un o Arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 17 o holiaduron.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein gwefan.

# 2. Crynodeb o'r arolygiad

## Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:
Roedd yn amlwg bod The Laser Company yn ymrwymedig i ddarparu profiad cadarnhaol i gleifion mewn amgylchedd dymunol sy'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Rhoddodd y cleifion adborth cadarnhaol am y gwasanaeth a'r triniaethau roeddent wedi'u cael.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y lleoliad yn lân ac yn daclus ac wedi'i gynnal a'i gadw i safon uchel
- Roedd y rheolwr cofrestredig yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth proffesiynol a phrofiad cadarnhaol i'w gleifion
- Roedd y lleoliad yn hygyrch i'r cleifion ag anawsterau symudedd.

## Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:
Roedd yn amlwg bod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion. Roedd trefniadau addas ar waith i gynnal a chadw'r cyfarpar laser / goleuni pwls dwys (IPL) ac i sicrhau ei fod yn parhau'n ddiogel. Gwelsom fod cofnodion y cleifion yn cael eu storio'n ddiogel. Roedd pob un ohonynt yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda ac yn cynnwys tystiolaeth o gydsyniad y cleifion i driniaeth a ffurflenni hanes meddygol cyflawn.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd yr ystafell drin yn lân, yn cynnwys cyfarpar addas ac yn addas at y diben
- Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu storio'n ddiogel ac yn cael eu cadw i safon uchel.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:
Roedd y rheolwr cofrestredig yn meddu ar y sgiliau priodol a'r wybodaeth berthnasol i ddarparu triniaeth ddiogel i bob claf. Gwelsom dystiolaeth fod cofrestr gynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau ar waith a oedd yn gyfredol ac yn cael ei hadolygu'n flynyddol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd polisi cwyno cyfredol ar waith ac roedd yn cynnwys manylion cyswllt AGIC
- Roedd y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau hyfforddiant Craidd Gwybodaeth a hyfforddiant y gweithgynhyrchwr ar ddefnyddio'r peiriannau laser.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn Atodiad B.

# 3. Yr hyn a nodwyd gennym

## Ansawdd Profiad y Claf

### Adborth gan Gleifion

Cyn ein harolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Cawsom gyfanswm o 17 o holiaduron wedi'u cwblhau.
Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

> *"Amgylchedd ardderchog, gwerth chweil a staff proffesiynol. Mae'r canlyniadau'n anhygoel bob amser."*

> *"Gwnaeth y staff i mi deimlo'n gyfforddus iawn drwy'r broses gyfan."*

**Diogelu a gwella iechyd**
Gwelsom dystiolaeth fod y cleifion yn darparu cofnod cynhwysfawr o'u hanes meddygol yn ystod eu hymgynghoriad cychwynnol. Yn ystod pob apwyntiad dilynol, roedd y cleifion naill ai'n cadarnhau nad oedd unrhyw newidiadau i'w hanes meddygol neu'n diweddaru'r ffurflen yn unol â hynny a'i llofnodi ar ôl ei chwblhau.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y staff wedi gwirio eu hanes meddygol cyn ymgymryd â thriniaeth. Cadarnhawyd hefyd eu bod wedi cael prawf croen cyn cael triniaeth newydd.

**Urddas a pharch**
Mae The Laser Company yn gweithredu o glinig harddwch lle mae ystafell ddynodedig ar gael i'r rheolwr cofrestredig gynnal pob ymgynghoriad a thriniaeth. Cedwir yr ystafell dan glo yn ystod pob apwyntiad ac ni chaiff aelodau eraill o'r staff sy'n gweithio yn y salon fynd i mewn i'r ystafell. Rhoddodd y darparwr laser wybod i ni y byddai'n gadael yr ystafell cyn cynnal triniaethau os bydd angen i'r cleifion dynnu eu dillad. Byddai'n gwneud yr un fath ar ôl eu triniaeth er mwyn eu galluogi i wisgo eu dillad.

Cawsom wybod y byddai hebryngwr, pe bai angen un ar y cleifion, yn gallu mynychu'r apwyntiad ac y byddai cyfarpar diogelu'r llygaid addas yn cael ei ddarparu.

Roedd y safle a'r ystafell driniaeth laser yn hygyrch i bobl anabl. Nid oedd toiled y cleifion yn addas i gadeiriau olwyn, ond cawsom wybod bod unigolion perthnasol yn cael gwybod am hyn cyn iddynt gyrraedd y lleoliad.

Roedd pob un o ymatebwyr yr holiadur o'r farn eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch a bod y staff yn gwrando arnynt/yn ateb eu cwestiynau.

**Cyfathrebu'n effeithiol**
Gwelsom dystiolaeth fod gwybodaeth helaeth ar gael i'r cleifion mewn perthynas â'r triniaethau a ddarperir yn y lleoliad. Roedd y wybodaeth hon ar gael ar wefan y lleoliad ac roedd wedi'i chynnwys yn y daflen wybodaeth i gleifion ac yn y datganiad o ddiben.

Roedd yn bosibl trefnu apwyntiadau ar-lein gan ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol neu ar wefan y lleoliad, dros y ffôn neu wyneb yn wyneb drwy ymweld â'r safle.

Rhoddodd y rheolwr cofrestredig wybod i ni y gellid darparu ar gyfer unrhyw gleifion a oedd yn dymuno cyfathrebu yn Gymraeg neu iaith arall, naill ai drwy ddefnyddio cyfieithydd mewn apwyntiadau neu drwy ddefnyddio ap Google Translate.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom argymell y dylid diweddaru'r canllaw i gleifion i roi gwybod i'r cleifion y gellid darparu ar gyfer siaradwyr Cymraeg ac ieithoedd eraill yn y lleoliad. Gwelsom dystiolaeth fod y newidiadau hyn wedi cael eu gwneud i'r ddogfen yn ystod ein hymweliad.

**Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion**
Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod y cleifion yn cael yr holl wybodaeth berthnasol yn ystod eu hymgynghoriad. Gwelsom dystiolaeth fod ffeiliau'r cleifion yn cynnwys ffurflenni ymgynghoriad a oedd wedi'u cwblhau, lle roedd y cleifion wedi llofnodi i gadarnhau eu bod wedi cael gwybod am y broses drin yn llawn, yn ogystal â buddiannau, risgiau a chanlyniadau tebygol y driniaeth. Gwnaethom hefyd gadarnhau bod cydsyniad wedi cael ei roi cyn y driniaeth gychwynnol ac yn ystod apwyntiadau dilynol.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall pa opsiynau triniaeth oedd ar gael iddynt, yn ogystal â risgiau a buddiannau'r opsiynau hyn. Cadarnhaodd pob un o'r cleifion eu bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal digonol hefyd.

**Cynllunio a darparu gofal**
Gwelsom dystiolaeth fod cofrestr triniaethau ar waith, a oedd yn gyfredol ac yn cael ei chynnal yn dda. Wrth edrych ar sampl o gofnodion y cleifion, cadarnhawyd

eu bod yn cael eu cynnal i safon dda a'u bod yn cynnwys gwybodaeth megis math y croen, cydsyniad i driniaeth a hanes meddygol.

**Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol**
Mae The Laser Company yn gweithredu o glinig harddwch. Roedd y safle yn hygyrch, gyda'r ystafell drin wedi'i lleoli ar y llawr gwaelod ac roedd digon o le er mwyn i gadair olwyn gael mynediad i'r ystafelloedd trin. Roedd digon o leoedd parcio ar gael ar y stryd o amgylch y lleoliad hefyd.

Cawsom wybod gan y rheolwr cofrestredig fod y lleoliad yn defnyddio rhagenwau ac enwau o ddewis yr unigolion bob amser yn ystod ymgyngoriadau ac apwyntiadau wrth drin cleifion trawsryweddol.

Gwnaethom adolygu'r polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth. Roedd y polisi yn fanwl, yn gyfredol a gwelsom dystiolaeth fod adolygiadau blynyddol yn cael eu cynnal.

**Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth**
Cawsom wybod gan y rheolwr cofrestredig y gellir rhoi adborth drwy'r cyfryngau cymdeithasol ac adolygiadau Google. Gwnaethom gadarnhau bod y canllaw i gleifion yn annog unigolion i roi adborth yn dilyn y triniaethau y maent yn eu cael. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig hefyd y caiff y cleifion eu hannog i roi adborth ar dudalennau cyfryngau cymdeithasol The Laser Company.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

**Rheoli risg ac iechyd a diogelwch**
Roedd tystiolaeth i ddangos bod profion dyfeisiau cludadwy yn cael eu cwblhau'n rheolaidd yn y lleoliad. Gwelsom hefyd dystiolaeth fod y gwiriad gwifrau yn gyfredol a gwelsom y dystysgrif diogelwch nwy gyfredol.

Gwnaethom adolygu'r trefniadau ar gyfer diogelwch tân. Dim ond un drws oedd i'r safle ac roedd arwydd clir arno i nodi ei fod yn ddrws tân. Roedd y practis yn cadw diffoddwr tân mewn lle dynodedig, fel yr amlinellir yng nghynllun diogelwch tân yr adeilad. Roedd y diffoddwr tân wedi cael ei brynu'n lleol ac nid oedd wedi cael ei wasanaethu hyd yma. Fodd bynnag, yn ystod ein harolygiad, prynodd y rheolwr cofrestredig ddiffoddwr tân newydd a'i gasglu a chytuno i brynu un newydd bob blwyddyn neu drefnu iddo gael ei wasanaethu'n flynyddol. Diweddarwyd yr asesiad risg tân yn ystod ein hymweliad hefyd i gadarnhau trefniadau'r dyfodol a chadwyd y dderbynneb fel tystiolaeth o'r dyddiad y prynwyd y diffoddwr tân.

Roedd pecyn cymorth cyntaf brys ar gael ac roedd y cynnwys yn addas ac yn gyfredol. Yn ystod cyfnod ein harolygiad, nid oedd y rheolwr cofrestredig, sef unig aelod o staff The Laser Company, wedi cwblhau'r hyfforddiant cymorth cyntaf. Fodd bynnag, gwelsom dystiolaeth fod y rheolwr cofrestredig wedi trefnu'r hyfforddiant tra roeddem ar y safle. Cawsom dystiolaeth ei fod wedi cwblhau'r hyfforddiant cymorth cyntaf ddiwrnod ar ôl ein hymweliad.

**Atal a rheoli heintiau a dihalogi**
Gwelsom fod y lleoliad yn lân ac yn daclus iawn yr olwg. Cawsom gopi o bolisi rheoli heintiau cyfredol ac amserlenni glanhau manwl ar gyfer y lleoliad gan y rheolwr cofrestredig. Dywedwyd wrthym fod y lleoliad yn cael ei lanhau rhwng pob cleient, gan gynnwys y peiriant laser a'r gwely a bod unrhyw raseli tafladwy a ddefnyddir yn cael eu rhoi yn y blwch offer miniog dynodedig. Roedd contract ar waith ar gyfer y blychau offer miniog a'r broses o waredu gwastraff clinigol.

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod mesurau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn a bod y lleoliad 'yn lân iawn'.

**Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed**
Roedd gan y lleoliad bolisi diogelu cynhwysfawr ar waith a oedd yn gyfredol ac yn cynnwys manylion y tîm diogelu lleol. Roedd y ddogfen hefyd yn amlinellu'n glir y gweithdrefnau i'w dilyn pe bai pryder ynghylch diogelu.

Hefyd, gwelsom dystiolaeth i ddangos bod y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau hyfforddiant diogelu oedolion lefel 3. Cadarnhaodd y rheolwr nad oedd unrhyw driniaethau yn cael eu darparu i unrhyw berson o dan 18 oed.

**Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol**
Roedd ein canfyddiadau'n cadarnhau bod y peiriant laser yn cael ei wasanaethu'n flynyddol a bod tystysgrif calibradu ar waith. Roedd y ddau yn gyfredol.

Roedd contract ar waith gyda Chynghorydd Diogelu rhag Laserau (LPA) a rheolau lleol yn nodi sut i ddefnyddio'r peiriannau yn ddiogel. Roedd y rheolau lleol wedi cael eu hadolygu'n rheolaidd gan y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau a'u llofnodi gan y gweithredwr laser.

**Gofal diogel a chlinigol effeithiol**
Gwnaethom edrych ar y sbectol amddiffynnol a ddarperir i'r cleifion yn ystod apwyntiadau. Roedd y sbectolau mewn cyflwr da ac yn gyson â'r rheolau lleol.

Roedd un ystafell drin ar y safle ac roedd arwydd 'Do Not Enter' yn cael ei osod ar y drws pan fo triniaethau'n cael eu cynnal. Cawsom wybod gan y rheolwr cofrestredig y byddai'r allwedd yng nghefn y peiriant yn cael ei thynnu a'i chadw'n ddiogel i atal mynediad anawdurdodedig.

Cawsom wybod gan y rheolwr cofrestredig bod gwiriadau cyn triniaeth yn cael eu cynnal ar bob cleient. Caiff profion croen eu cynnal ar gyfer pob cleient cyn triniaeth, ac roedd y rhain yn cael eu cofnodi yn ffeiliau'r cleifion. Gwelsom hefyd dystiolaeth fod rhestrau gwirio meddygol cynhwysfawr yn cael eu cwblhau ar gyfer pob un o'r cleifion a oedd yn cynnwys gwiriad am unrhyw feddyginiaethau ffotosensitif.

**Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd**
Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym ei fod yn adolygu'r adborth a roddir ar-lein yn rheolaidd. Nid oedd y lleoliad wedi cael unrhyw adborth negyddol ers i'r busnes ddechrau, ond mae'n parhau i fonitro hyn er mwyn nodi unrhyw themâu neu dueddiadau a all godi.

**Rheoli cofnodion**
Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu cadw mewn ffeiliau papur a'u storio'n ddiogel mewn cwpwrdd dan glo yn yr ystafell drin. Gwnaethom edrych ar bum sampl o gofnodion cleifion gan nodi eu bod o safon dda.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

**Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd**
Caiff The Laser Company ei oruchwylio gan y rheolwr cofrestredig, sef yr unig weithredwr laser sy'n gweithio yn y lleoliad.

Gwelsom dystiolaeth fod cofrestr o bolisïau a gweithdrefnau gynhwysfawr ar waith. Roedd pob un o'r polisïau a welwyd yn gyfredol ac yn cynnwys dyddiadau i'w hadolygu'n flynyddol.

**Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau**
Gwnaethom gadarnhau â'r rheolwr cofrestredig na chafodd unrhyw bryderon na chwynion eu hadrodd ers i'r busnes ddechrau.

Roedd gweithdrefn gwyno gynhwysfawr ar waith, a oedd i'w gweld yn glir yn yr ardal aros. Roedd y weithdrefn yn gyfredol ac yn cynnwys manylion cyswllt AGIC.

**Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol**
Gwelsom dystiolaeth bod y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau hyfforddiant Craidd Gwybodaeth a hyfforddiant y gweithgynhyrchwr ar ddefnyddio'r peiriant laser.

**Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu**
Gwnaethom gadarnhau bod gan y rheolwr cofrestredig wiriad cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar waith.

# 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion | Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

# Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

**Gwasanaeth:** The Laser Company

**Dyddiad yr arolygiad:** 14/09/23

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon yr oedd angen ymdrin â nhw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (priflythrennau):**

**Teitl swydd:**

**Dyddiad:**

# Atodiad C - Cynllun gwella

**Gwasanaeth:** The Laser Company

**Dyddiad yr arolygiad:** 04/09/23

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw welliannau yn ystod yr arolygiad hwn. | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (priflythrennau):**

**Teitl swydd:**

**Dyddiad:**